



4.0 Gwirfoddolwyr

Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Recriwtio Mwy Diogel
3. Newidiadau Diweddar i Wasanaethau Datgelu a Gwahardd
4. Adsefydlu Troseddwyr
5. Gwybodaeth Bellach

Ar 1 Rhagfyr 2012 unodd y **Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)** a'r **Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA)** i ffurfio'r **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**. O ganlyniad, gelwir '**gwiriadau CRB**' yn '**wiriadau DBS**' erbyn hyn, a chaiff rhestrau gwahardd yr ISA eu galw'n **rhestrau gwahardd DBS** bellach.

Gwiriad cofnodion troseddol yw'r broses o gasglu gwybodaeth am gofnod troseddol yr ymgeisydd, ac mae'n cynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu, rhybuddiadau, ceryddau a rhybuddion terfynol a gedwir ar **Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC)**.

Mae nifer o fudiadau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn ei **gwneud hi'n ofynnol i'w staff a'u gwirfoddolwyr fynd trwy wiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS)**.

Defnyddio Gwiriadau Cofnodion Troseddol fel Rhan o Recriwtio Mwy Diogel

Yn achos y rhan fwyaf o swyddi neu leoliadau gwirfoddoli, ni chaiff y cyflogwr wybod beth yw cofnod troseddol yr unigolyn ac eithrio'r euogfarnau hynny sydd 'heb eu disbyddu'. Yn y diwedd, bydd y rhan fwyaf o rybuddiadau ac euogfarnau'n cael eu 'disbyddu' ar ôl hyn a hyn o amser (gelwir y cyfnod hwn yn gyfnod adsefydlu). Yn achos rhai dedfrydau, fel dedfrydau o garchar am fwy na 4 blynedd, ni chânt eu disbyddu byth.

Fodd bynnag, ar gyfer swyddi lle bydd angen gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gall y mudiad ofyn am wiriad cofnodion troseddol. **Ceir tri math o wiriad.**

Gwiriad Safonol y DBS

Mae ynarai proffesiynau a rolau lle gall y cyflogwr ofyn am gael gweld cofnod troseddol llawn yr unigolyn. Gelwir y rhain yn swyddi eithriedig a chânt eu rhestru dan **Orchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974**. Bydd datgeliad safonol yn dangos yr holl wybodaeth a gedwir am y cofnod troseddol ar y **PNC**; euogfarnau wedi'u disbyddu (heb eu diogelu) ac euogfarnau wedi'u disbyddu, rhybuddiadau, **ceryddau**, rhybuddion **terfynol**.

Gwiriad Manylach y DBS

Mae rhai mathau o waith, yn enwedig lle gweithir gyda phlant ac oedolion a ystyrir fel bod yn agored i niwed ar y pryd, yn gymwys ar gyfer y gwiriadau cofnodion troseddol uchaf. Gelwir y rhain yn wiriadau manylach. Rhaid i'r swyddi hyn gael eu nodi yng **Ngorchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974** a'r rheoliadau a wnaed dan **Ddeddf yr Heddlu 1997**. Mae datgeliad manylach yn cynnwys yr holl wybodaeth a gedwir am y cofnod troseddol ar y **PNC**, fel uchod, a hefyd gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau, y cred yr heddlu ei bod yn rhesymol berthnasol i'r swydd dan sylw.

Gwiriad Manylach y DBS gyda Gwiriad o'r Rhestr Wahardd / Rhestrau Gwahardd

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn nodi'r gweithgareddau a'r gwaith na ddylai unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda grŵp agored i niwed, plant a/neu oedolion, eu gwneud. Gelwir y rhain yn weithgareddau a reoleiddir.

Aeth Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ati i ddiwygio'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir er mwyn canolbwyntio ar waith yn ymwneud â chysylltiad agos, heb oruchwyliaeth gyda grwpiau agored i niwed, yn cynnwys plant. Daeth y diffiniad newydd i rym ym mis Medi 2012.

Yn achos cyflogwyr sy'n dymuno cyflogi unigolyn i wneud gweithgaredd a reoleiddir, ni ddylent fynd ati'n fwriadol i gyflogi rhywun sydd wedi'i wahardd, a gallant ofyn i'r DBS gynnal gwiriad manylach a gwirio yn erbyn y rhestr wahardd berthnasol (rhestr plant a/neu oedolion). Bydd y gwiriad hwn mewn perthynas â'r rhestr wahardd yn dangos a oes rhywun wedi'i gynnwys, ai peidio, ar y rhestr DBS berthnasol.

Cost Gwiriadau DBS

Mae gwiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr yn rhad ac am ddim, ond rhaid talu ffi weinyddol fechan am bob gwiriad. At ddibenion DBS, caiff gwirfoddolwr ei ddiffinio fel

'unigolyn sy'n cyflawni unrhyw weithgaredd lle bydd yn treulio amser yn ddi-dâl (ac eithrio costau teithio a threuliau parod eraill a gymeradwyir) yn gwneud rhywbeth sy'n anelu at fod o fudd i rywun arall (unigolion neu grwpiau) ac eithrio neu yn ychwanegol at berthnasau agos'

Ar gyfer gweithwyr cyflogedig, dyma'r ffioedd DBS:

Gwiriad Safonol	£23.00
Gwiriad manylach gyda neu heb wiriadau rhestrau gwahardd	£40.00

Cael Mynediad at Wiriadau DBS

Dim ond trwy'r **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** y gellir cael mynediad at wiriadau **DBS**, a hynny trwy gyfrwng **Cyrff Cofrestredig**. Ni all unigolyn gynnal gwiriad cofnodion troseddol arno'i hun.

Gall mudiad sy'n defnyddio gwiriadau **DBS** wneud cais i'r **DBS** i ddod yn **Gorff Cofrestredig**. Fodd bynnag, rhaid bodloni ambell amod ac efallai y bydd nifer o fudiadau o'r farn fod hyn yn amhriodol iddynt, neu efallai na fydd modd iddynt fodloni'r meini prawf. Fel arall, gall mudiad ddefnyddio gwasanaethau **Corff Ambarél Cofrestredig** a all weithredu ar ran mudiadau eraill, ond fel arfer bydd y corff hwn yn codi ffi weinyddol yn ychwanegol at gost y gwiriad **DBS**.

Gall mudiadau'r trydydd sector gael mynediad at **wiriadau DBS ar gyfer eu staff** a'u gwirfoddolwyr trwy gyfrwng gwasanaethau **Corff Ambarél Cofrestredig**. O'r blaen, câi'r sector ei wasanaethu gan **Uned Cofnodion Troseddol CGGC**, sef uned a gâi gyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu mynediad am ddim at y gwasanaeth. Mae **Llywodraeth Cymru** wedi ailgyfeirio'r cyllid hwn er mwyn darparu gwasanaeth cymorth diogelu ehangach nad yw'n ymwneud yn benodol â mynediad at wiriadau **DBS**.

Gwirio ai Peidio

Gall penderfyniadau o ran cymhwystra fod yn eithaf cymhleth, ac yn aml mae mudiadau gwirfoddol dan bwysau gan gyllidwyr neu yswirwyr i gynnal gwiriadau '**cyffredinol**' ar yr holl wirfoddolwyr a'r holl staff, hyd yn oed pan na cheir unrhyw gymhwystra. O'r herwydd, mae'n bwysig peidio ag ystyried gwiriadau **DBS** ar eu pen eu hunain, ond yn hytrach fel rhan o broses ddiogelu ehangach, ac mae'n bwysig i **Gorff Cofrestredig** profiadol, a all gynorthwyo gyda'r penderfyniad cymhwystra, gael mynediad atynt.

Gellir defnyddio gwiriadau **DBS** fel arfer gorau neu gallant fod yn orfodol pan fo deddfwriaeth arall yn mynnu y dylid cynnal gwiriad yn erbyn rhestr wahardd **e.e. gweithgaredd a reoleiddir**.

Bydd y gwaith a'r gweithgareddau hynny nad ydynt bellach yn bodloni'r diffiniad diwygiedig o weithgaredd a reoleiddir (**e.e. rhai gweithgareddau a wneir gan wirfoddolwyr dan oruchwyliaeth**) yn dal i fod yn gymwys ar gyfer gwiriadau manylach y **DBS**, ond ni fyddant bellach yn gymwys ar gyfer gwiriadau rhestrau gwahardd fel rhan o'r cais hwnnw.



Gwybodaeth Bwysig

Dim ond pan gaiff yr amodau cymhwysra eu bodloni y gellir gofyn am wiriad DBS ac ni ellir cynnal gwiriad o'r fath ar unrhyw un dan 16 oed: Byddai mynd yn groes i'r amodau hyn yn gyfystyr â throedd.

[Beth am weld pa wiriad DBS sy'n briodol i'ch gweithiwr](#)

Dyletswydd i Atgyfeirio

Pan fo cyflogwr neu fudiad o'r farn fod unigolyn sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir wedi achosi niwed i grwpiau agored i niwed, yn cynnwys plant, neu y gallai achosi niwed iddynt yn y dyfodol, mae gan y cyflogwr neu'r mudiad ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio.



Gwybodaeth

Dylid cyfeirio'r achosion at y **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**. Ceir gwybodaeth bellach yng nghanllawiau atgyfeirio'r DBS.

[Canllawiau Atgyfeirio'r DBS](#)

Newidiadau Diweddar i Wasanaethau Datgelu a Gwahardd

Darparu Un Dystysgrif

Erbyn hyn, dim ond un dystysgrif **DBS** y bydd y **DBS** yn ei darparu, a bydd y dystysgrif hon yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at yr ymgeisydd. Bydd angen i fudiadau ofyn am gael gweld y dystysgrif hon er mwyn asesu pa mor addas yw'r ymgeisydd.

Gall mudiadau ddefnyddio dull olrhain ar-lein i weld pryd y caiff y gwiriad ei gwblhau, ac yna gallant wneud trefniadau i weld tystysgrif yr ymgeisydd. Yr un pryd, gallant gadarnhau pwy yw'r ymgeisydd, gwirio'r dystysgrif i sicrhau ei bod yn ddilys ac asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrth unrhyw wybodaeth a ddatgelir.

Er y dylai'r broses recriwtio yn ystod y cam hysbysebu a'r cam cyfweld fod wedi tynnu sylw at yr angen i'r gwirfoddolwr neu'r gweithiwr cyflogedig ddatgelu unrhyw gofnod troseddol perthnasol, bydd hwn yn gyfle pellach i drafod unrhyw gynnwys a all ymddangos ar y dystysgrif.

Yn achos staff a gwirfoddolwyr newydd a fydd yn ymhél â gweithgaredd a reoleiddir, ni ddylent ddechrau yn eu rôl hyd nes y bydd gwiriadau priodol y rhestrau gwahardd wedi'u cynnal a'u cadarnhau gan y mudiad.

Nid oes unrhyw 'ddyddiad gorffen' swyddogol yn berthnasol i wiriadau DBS. Bydd unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn gywir ar yr adeg y cynhaliwyd y gwiriad. Y cyflogwr a ddylai benderfynu pa un a ddylid cynnal gwiriad newydd, a phryd, ond gellir hwyluso llawer ar y broses trwy ddefnyddio [Gwasanaeth Diweddarau'r DBS](#).

Y Gwasanaeth Diweddarau

Mae **Gwasanaeth Diweddarau'r DBS** yn caniatáu rhywfaint o "gludadwyedd", oherwydd gellir diweddarau tystysgrifau DBS a'u cludo o rôl i rôl, o fewn yr un gweithle, pan fo'r un math a'r un lefel o wiriad yn ofynnol.

Gall unigolyn danysgrifio i ymuno â'r **Gwasanaeth Diweddarau** a gall cyflogwr, gyda chaniatâd yr ymgeisydd, wirio statws y dystysgrif ar-lein yn rhad ac am ddim ar wefan y DBS i weld a yw tystysgrif yr ymgeisydd yn parhau i fod yn gyfredol **h.y. nid oes unrhyw wybodaeth newydd wedi'i hychwanegu ers i'r dystysgrif gael ei chyflwyno**. Dim ond pe bai statws y dystysgrif wedi newid a phe bai tystysgrif newydd wedi'i chyflwyno, gyda'r wybodaeth arni wedi'i diweddarau, y bydd angen cynnal gwiriad newydd.

Rhaid i'r recriwtiwr barhau i wirio fod y dystysgrif a welir yn briodol i'r rôl trwy ddefnyddio'r manylion hyn.

- Dyma'r dystysgrif y cyfeirir ati ar y gwasanaeth Diweddarau (**dylai'r manylion personol a'r rhifau gyfateb**)
- Mae'r dystysgrif yn briodol i'r gweithlu (**oedolyn neu blentyn**) y bydd y gwirfoddolwr yn gweithio gydag ef
- Mae'r dystysgrif yn briodol i lefel y gwiriad sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl **e.e. mae ganddi wiriad rhestr wahardd pan fo'r gwaith yn weithgaredd a reoleiddir**.



Gwybodaeth

Mae tanystrifio ar gyfer y Gwasanaeth Diweddarau yn costio £13 y flwyddyn ar gyfer staff cyflogedig ond mae'n rhad ac am ddim ar gyfer gwirfoddolwyr. I gael gwybodaeth bellach ac i ymuno â'r gwasanaeth diweddarau, gweler:

[Gwasanaeth Diweddarau'r DBS](#)

Adsefydlu Troseddwyr

Er mai ffocws y DBS yw helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, yn cynnwys plant, mae hi'n bwysig hefyd i bwy bynnag sydd â chofnod troseddol gael ei drin yn deg, heb i neb wahaniaethu yn ei erbyn gan fod euogfarn neu wybodaeth arall wedi dod i'r amlwg.

Datgelu Gwybodaeth am Gofnod Troseddol

Ers mis Mai 2013, mae rhywfaint o [wybodaeth y PNC wedi cael ei hidlo](#) ac ni fydd yn ymddangos ar y dystysgrif [h.y. ni fydd angen datgelu rhai rhybuddiadau ac euogfarnau mân a hen dan y Gorchymyn Eithriadau Adsefydlu Troseddwyr](#). Mae newidiadau yn y canllawiau hidlo yn golygu y dylai gwybodaeth lai amherthnasol ymddangos yn awr ar y dystysgrif DBS.

Ni all cyflogwyr ystyried y rhybuddiadau a'r euogfarnau mân a hen hyn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag unrhyw unigolyn. Fodd bynnag, mae yna ystod o droseddau, yn cynnwys rhai sy'n berthnasol i swyddi'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion mewn perygl, na fyddant byth yn cael eu hidlo. Bydd angen i ffurflenni cais adlewyrchu'r newidiadau hidlo er mwyn sicrhau

- Y bydd cyflogwyr yn gofyn y cwestiynau iawn
- Y bydd gweithwyr yn rhoi'r ateb iawn ([cyfreithiol gywir](#)) ac y bydd cyflogwyr yn cael eu hannog i gynnwys y paragraff isod yn eu ffurflenni cais safonol.

“Mae'r newidiadau i Orchymyn Eithriadau 1975 (2013) yn darparu y bydd rhai euogfarnau a rhybuddiadau sydd wedi'u disbyddu yn cael eu 'diogelu'. Ni fydd yn rhaid eu datgelu i gyflogwyr ac ni ellir eu hystyried.”

Hefyd, wrth recriwtio (gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr), cynghorir cyflogwyr i ofyn;

“A oes gennych euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddau neu rybuddion terfynol nad ydynt wedi'u "diogelu", fel y'u diffinnir gan Orchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'i diwygiwyd yn 2013).”



Gwybodaeth Bwysig

Yn achos unrhyw wybodaeth droseddol, dylid asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrthi a'i thrafod gyda'r gwirfoddolwr (neu'r gweithiwr cyflogedig). Ymhellach, mae'n ofynnol i fudiad sy'n defnyddio gwiriadau DBS ddilyn y Cod Ymarfer, sy'n cynnwys bod â datganiad polisi ar waith ar gyfer recriwtio cyn-droseddwyr: Ceir polisi enghreifftiol yn y daflen wybodaeth hon.

[Polisi Enghreifftiol – Recriwtio Cyn-droseddwyr](#)

Gwybodaeth bellach

Safon - Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (Saesneg yn Unig) **Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**

<https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard>

Diogelu CGGC

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

safeguarding@wcva.cymru

<https://wcva.cymru/cy/diogelu/>

Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (Saesneg yn Unig)

Llywodraeth y DU

www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

Polisi Enghreifftiol ar gyfer Recriwtio Cyn-droseddwyr **(Saesneg yn Unig)**

Llywodraeth y DU

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-sample-policy-on-the-recruitment-of-ex-offenders>



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.